Cyfranogiad Cynhwysol: Symud, Perthyn a Ffynnu

3-5 oed

the Daily Mile Foundation



Mae'r pecyn hwn yn cefnogi plant 3-5 oed i archwilio perthyn trwy symudiad, siarad a dewisiadau creadigol. Defnyddiwch ef ochr yn ochr â The Daily Mile trwy gysylltu pob gweithgaredd byr â'r profiad a rennir o symud gyda'u gilydd y tu allan neu o gwmpas eich lleoliad. Y nod yw helpu plant i sylwi bod pobl yn gallu perthyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy bethau maen nhw'n eu mwynhau, dathliadau, timau, ieithoedd, caneuon, cartrefi a chymunedau.

Credu

Yn The Daily Mile Foundation, credwn:

- Dylai pob plentyn deimlo ei fod yn cael ei groesawu, ei gynnwys ac yn gallu cymryd rhan
- Dylid cydnabod, lleihau a dileu rhwystrau i gyfranogiad pryd bynnag y bo modd
- Dylai cyfranogiad fod yn hyblyg, cadarnhaol ac wedi'i addasu i weddu i wahanol blant a chyd-destunau ysgol
- Dylai'r ffocws fod ar berthyn, hyder a mwynhad, nid perfformiad neu gymharu!

Gallaf!

Datganiadau 'Gallaf' The Daily Mile:

- Gallaf gymryd rhan yn y filltir mewn ffordd sy'n teimlo'n iawn i mi.
- Gallaf helpu eraill i deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys.
- Gallaf sylwi pan fydd rhywun angen cefnogaeth i ymuno.
- Gallaf annog eraill heb eu cymharu na'u beirniadu.
- Gallaf ddathlu ymdrech, hyder a mwynhad.
- Gallaf ddeall bod pawb yn symud yn wahanol, ac mae hynny'n iawn!

Ymunwch â miloedd o ysgolion, dros y byd, sy'n cymryd rhan yn barod. Helpwch eich plant i deimlo'n fwy iach, yn fwy hapus a chreu arferion iachach gydol eu hoes.

Cofrestrwch yn:
thedailymile.co.uk

Gweithgareddau Dosbarth Cyfan

the Daily Mile Foundation

15 mun

Syniadau

Archwiliwch y gair 'perthyn' gyda'r plant, gan edrych ar y cyflwyniad i gael syniadau.

Defnyddiwch y brawddegau enghreifftiol ar y bwrdd i annog brawddegau llawn gyda manylion priodol. Os oes amser, trafodwch sut mae perthyn i glwb neu grŵp penodol yn gwneud iddyn nhw deimlo.
(*sleid 9*)

Defnyddiwch yr darluniau enghreifftiol i hwyluso trafodaeth am berthyn.
(*sleid 10*)

Darllenwch un o'r llyfrau o'r rhestr ddarllen a awgrymir i archwilio'r syniad o 'berthyn' ymhellach.

CYNHWYSIANT SYMUDIAD: Wrth gysylltu'r gweithgaredd hwn â'r filltir, atgoffwch y plant y gall pawb gymryd rhan yn eu ffordd eu hunain. Gallai plant gerdded, loncian, symud ar olwynion, symud gyda chefnogaeth, oedi, gwylio, cymeradwyo neu ailymuno. Y nod y mae pawb yn ei rannu yw renn **PERTHYN** , nid pellter!

Adnoddau

Cyfranogiad Cynhwysol: Dec Adnoddau Cyflwyniad ac Ystafell Ddosbarth Symud, Perthyn a Ffynnu

Rhestr Ddarllen ar gyfer plant 3-5 oed

10 mun

Gweithgareddau Grŵp Bach

Rydyn ni i gyd yn perthyn mewn gwahanol ffyrdd. Mewn trefniant partneriaid siarad, gofynnwch i'r plant drafod y gwahanol ffyrdd y gallwn berthyn. Gwrandewch, rhannwch a dathlwch yr hyn sy'n gwneud pob person yn rhan o'n cymuned dosbarth.

Defnyddiwch y Daflen Perthyn i ddangos gwahanol ffyrdd y mae'r plant yn perthyn. Gellid argraffu hon at ddefnydd grŵp bach neu ei arddangos ar y bwrdd.

Cymerwch eich tro i ateb y cwestiynau 'Parwch a Rhannwch', gan gofio gwrando'n ofalus ac ymateb yn garedig.

NODYN HWYLUSO: Gall plant rannu gwahanol strwythurau teuluol, ieithoedd, dathliadau, diddordebau, anghenion symudedd neu ffyrdd o gymryd rhan. Dangoswch chwilfrydedd a pharch trwy ddweud, 'Mae hynny'n arbennig i ti.', 'Dweud fwy wrthym os wyt ti eisiau.', a 'Gallwn ni i gyd berthyn hyd yn oed pan ydyn ni'n wahanol.'. Osgowch ofyn i blant gynrychioli diwylliant, crefydd neu gymuned. gyfan.

Adnoddau

Taflen adnoddau 'Rydyn ni i Gyd Perthyn'



Cyfranogiad Cynhwysol: Symud, Perthyn a Ffynnu - 3-5 oed

Gweithgareddau Unigol

the Daily Mile Foundation



15 mun

Gweithgareddau Unigol

Plant i greu eu darlun 'Arfbais' eu hunain i ddangos lle maen nhw'n teimlo ymdeimlad o berthyn. Os yw'n briodol, gallai plant labelu eu lluniau.

Unwaith y bydd plant wedi cwblhau eu lluniau, anogwch nhw i'w rhannu gyda'u cyfoedion a nodi tebygrwydd a gwahaniaethau. Atgyfnerthwch sut mae symud gyda'n gilydd yn creu ymdeimlad o berthyn. Casglwch syniadau plant am sut y gallant helpu eraill i deimlo eu bod yn perthyn wrth gymryd rhan yn y filltir.

MYFYRIO I ATHRAWON: Ar ôl y gweithgaredd/ gweithgareddau, sylwch pa blant a ymunodd yn hyderus, pa blant oedd angen cymorth i rannu ac a oedd yr enghreifftiau yn adlewyrchu'r plant yn eich lleoliad. Defnyddiwch ymatebion plant i gynllunio y filltir yn y dyfodol sy'n dathlu gwahanol ieithoedd, teuluoedd, diddordebau, dathliadau a ffyrdd o symud.

Adnoddau

Taflen adnoddau Arfbais

Cysylltiadau Cwricwlwm Posibl:

Hanes: Marchogion a Chestyll

Addysg Grefyddol: Perthyn (gwahanol grefyddau)

Addysg Bersonol, Cymdeithasol, Iechyd ac Economaidd: Perthyn i gymuned

Dolenni Adnoddau Daily Mile Foundation Ychwanegol

Wythnos Iechyd Meddwl Plant Dyma Fy Lle – pecyn adnoddau

Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl SAMH – pecyn adnoddau

Gadewch i ni Symud – fideo cyflwyniad

Bingo Dod i'ch Adnabod – gweithgareddau (cyffredinol)

Adnoddau Allanol Ychwanegol

Gweithgaredd ystafell ddosbarth 'Link Together' (20 munud)

https://www.youngminds.org.uk/media/juhdzkag/link-together.pdf



Ymunwch â miloedd o ysgolion, dros y byd, sy'n cymryd rhan yn barod. Helpwch eich plant i deimlo'n fwy iach, yn fwy hapus a chreu arferion iachach gydol eu hoes.

Cofrestrwch yn:

thedailymile.co.uk

Cyfranogiad Cynhwysol: Symud, Perthyn a Ffynnu - 3-5 oed

Rydyn ni i gyd yn perthyn

Pwyntiwch • Cylchwch • Lliwiwch • Arluniwch • Siaradwch

the Daily Mile Foundation

Rydyn ni i gyd yn perthyn mewn gwahanol ffyrdd. Edrychwch ar y lluniau gyda phartner. Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei hoffi, beth rydych chi'n ei ddathlu, pwy rydych chi'n cymeradwyo iddyn nhw a'r geiriau neu'r caneuon rydych chi'n eu clywed gartref neu yn yr ysgol neu'r feithrinfa.


Yr hyn rydw i'n ei hoffi

Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei hoffi yn ystod y filltir

Cylchwch yr hyn rydych chi'n ei hoffi.



Pêl-droed



Celf



Cerddoriaeth



Straeon



Nofio



Dawns

Rydyn ni'n dathlu

Dywedwch wrth ffrind am rywbeth rydych chi'n ei ddathlu yn ystod y filltir

Pwyntiwch at neu gylchwch unrhyw ddathliadau rydych chi'n eu hadnabod, wedi'u gweld neu yr hoffech ddysgu amdanynt.



Pen-blwydd



Nadolig



Diwali



Eid



Hanukkah



Blwyddyn Newydd

Cyfranogiad Cynhwysol: Symud, Perthyn a Ffynnu - 3-5 oed

Rydyn ni i gyd yn perthyn

Pwyntiwch • Cylchwch • Lliwiwch • Arluniwch • Siaradwch

the Daily Mile Foundation


Rydyn ni'n cymeradwyo timau

Allwch chi gymeradwyo rhywun ar y filltir?

Pwyntiwch at neu cylchwch gêm, tîm neu liw rydych chi'n ei hoffi.


Pêl-droed


Rygbi


Criced


Coch


Glas


Gwyrdd

Geiriau rydyn ni'n eu clywed

Allwch chi wrando ar unrhyw ieithoedd gwahanol ar y filltir?


Hello


Hola


Salam


Iaith Arwyddion


Geiriau cartref


Caneuon

Cyfranogiad Cynhwysol: Symud, Perthyn a Ffynnu - 3-5 oed

Myfyrio



Rwy'n perthyn pan fyddaf yn teimlo fy mod yn cael fy nghroesawu, fy nghynnwys ac yn ddiogel. Gallaf helpu eraill i berthyn trwy wrando, cymryd tro a defnyddio geiriau caredig.

Tynnwch lun, neu dywedwch wrth oedolyn am un peth caredig y gallwch ei wneud heddiw i helpu rhywun i deimlo eu bod yn perthyn pan fyddant yn gwneud y filltir.


Cwestiynau parwch a rhannwch

- **Beth yw un peth rydych chi'n ei hoffi sydd yr un peth â'ch partner?**
- **Beth yw un peth rydych chi'n ei hoffi sy'n wahanol?**
- **Sut allwn ni wneud i rywun deimlo croeso pan maen nhw'n hoffi rhywbeth gwahanol i ni?**
- **Pa ddathliad, gair, cân neu dîm sy'n arbennig i chi neu'ch teulu?**
- **Beth allwn ni ei ddweud neu ei wneud pan fydd rhywun yn rhannu rhywbeth newydd gyda ni?**
- **Sut allwn ni wneud i bawb deimlo bod croeso i ni pan fyddwn ni'n gwneud y filltir?**

Arfbais

the Daily Mile Foundation

Dylunio eich Arfbais ‘Perthyn’ eich hun



Gall pawb fod yn perthyn i The Daily Mile! Mae symud gyda’n gilydd yn ein helpu i deimlo ein bod ni’n perthyn. Sut allwch chi wneud i rywun deimlo fel eu bod yn perthyn pan fyddwch chi’n cymryd rhan yn y filltir?